## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (FFORDD OSGOI DDWYREINIOL ABERHONDDU, POWYS) (GWAHARDD TRAFFIG DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Aberhonddu, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd a elwir yn Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Aberhonddu sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Brynich yr A40/A470/B4601 i'w chyffordd â chyffordd y B4602 Troed-yr-harn.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar y B4601 tua'r gorllewin drwy Aberhonddu hyd at ei chyffordd â'r B4602 a'r B4602 tua'r gogledd i ailymuno â'r A470 wrth gyffordd Troed-yr-harn: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 22 Ionawr 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) ar 22 a 23 Ionawr 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (BRECON EASTERN BYPASS, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 at Brecon, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all traffic from proceeding on the length of the trunk road known as the Brecon Eastern Bypass that extends from its junction with the north-eastern side of the A40/A470/B4601 Brynich Roundabout to its junction with the B4602 Troed-yr-harn junction.

The alternative route for northbound traffic is via the westbound B4601 through Brecon to its junction with the B4602 and the northbound B4602 to rejoin the A470 at Troed-yr-harn junction: vice versa for southbound traffic.

The Order comes into force on 22 January 2024. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) on 22 and 23 January 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government